

Prifysgol Wrecsam Wrexham University

Manyleb y modiwl

Ni ellir rheoli'r ddogfen hon ar ôl iddi gael ei hargraffu. Defnyddiwch Gyfeiriadur y Modiwl i gael y fersiwn ddiweddaraf drwy glicio ar y ddolen ganlynol: [Cyfeiriadur y modiwl](#)

Cod y Modiwl	PSY429
Teitl y Modiwl	Dulliau Ymchwil 1
Lefel	4
Gwerth credyddol	20
Cyfadrn	Gwyddorau Cymdeithasol a Bywyd
Cod HECoS	100497
Cod Cost	GAPS
Modiwl rhagofyniadol	Dim

Y rhaglenni y cynigir y modiwl ynddynt

Teitl y Rhaglen	Craidd/Opsiynol/Sefyll ar ei hyn
BSc (Anrh) Seicoleg	Craidd
BSc (Anrh) Seicoleg gyda Blwyddyn Sylfaen	Craidd

Crynodeb o Oriau'r Modiwl

Oriau dysgu ac addysgu	36 awr
Cymorth tiwtor ar leoliad	0 awr
Dysgu dan oruchwyliaeth e.e. dosbarthiadau ymarferol, gweithdai	0 awr
Goruchwyliaeth prosiect (prosiectiau lefel 6 a modiwlau traethawd hir yn unig)	0 awr
Active learning and teaching hours total	36 awr
Oriau lleoliad gwaith	0 awr
Astudio annibynnol dan arweiniad	164 awr
Hyd y modiwl (cyfanswm oriau)	200 awr

Nodau'r modiwl

Nod y modiwl hwn yw cyflwyno myfyrwyr i natur, athroniaeth, ac ehangder dulliau ymchwil mewn seicoleg. Bydd myfyrwyr yn ennill gwerthfawrogiad o'r gwahanol sefyllfaoedd athronyddol sy'n sail i ymchwil, yn ogystal â hanfodion ac egwyddorion gwahanol ddulliau, sy'n cynnwys methodolegau ansoddol a meintiol fel ei gilydd. Bydd y modiwl yn galluogi myfyrwyr i sicrhau lefel sylfaenol o wybodaeth a dealltwriaeth o'r broses ymchwil a dulliau ymchwil, gan gynnwys dealltwriaeth o ystyriaethau sy'n sail i

gynllunio a dylunio ymchwil. Bydd myfyrwyr yn trafod moeseg ac ymddygiad ymchwil a bydd yn ennill gwerthfawrogiad o drafodaethau cyfredol o fewn ymchwil.

Deiliannau Dysgu'r Modiwl

Ar ddiwedd y modiwl hwn, bydd myfyrwyr yn gallu:

1	Arddangos gwerthfawrogiad o'r gwahaniaeth rhwng ymchwil ansoddol a meintiol, a'r gwahanol safleoedd athronyddol sy'n sail yr methodolegau ymchwil.
2	Trafod y problemau moesegol creiddiol mewn ymchwil seicolegol.
3	Cydweithiwch i lunio a chyflwyno cynnig ymchwil sy'n dangos dealltwriaeth o'r gwahanol ystyriaethau sy'n sail i gynllunio a dylunio ymchwil.
4	Myfyriwch yn academiaidd ar y broses o weithio ar y cyd.

Asesiad

Tasgau Asesu Dangosol::

Mae'r adran hon yn amlinellu'r math o dasg asesu y disgwylir i'r myfyriwr ei chwblhau fel rhan o'r modiwl hwn. Bydd rhagor o fanylion ar gael yn y llawlyfr modiwl ar gyfer y flwyddyn academiaidd berthnasol.

Prosiect Grŵp – Sgil trosglwyddadwy allweddol y mae'r BPS yn ei gwneud yn ofynnol i fyfyrwyr ei datblygu yw eu gallu i gydweithio. Mae prosiectau grŵp yn rhoi cyfle i efelychu sefyllfaoedd byd go iawn, gan sicrhau bod graddedigion yn barod ar gyfer y diwydiant ac yn meddu ar sgiliau cyfathrebu a datrys gwrthdaro effeithiol. O ganlyniad i hyn, mae safon allweddol a amlinellir gan y BPS yn sicrhau bod hyfforddiant ymchwil cydweithredol, asesu gweithredol a datblygiad cymwyseddau proffesiynol craidd yn cael eu hasesu.

Felly, fel rhan o asesiad y modiwl hwn, bydd gofyn i fyfyrwyr weithio'n gydweithredol mewn grwpiau i lunio a chyflwyno cynllun cynnig ymchwil, sy'n dangos gwerthfawrogiad o'r gwahanol ystyriaethau sy'n sail i gynllunio a dylunio ymchwil, gan gynnwys: safbwynt athronyddol, methodoleg, moeseg a'r gwahaniaethau rhwng ymchwil ansoddol a meintiol.

Felly, yr asesiadau dangosol yw:

- Prosiect grŵp, sy'n cynnwys cwblhau:
 - ffurflen profforma ymchwil wedi'i chynhyrchu'n unigol sy'n darparu gwybodaeth am y prosiect ymchwil sy'n cael ei gynnig (20%)
 - cyflwyniad grŵp 15 munud o'r cynnig ymchwil (50%)
- Myfyrdod unigol o 800 gair ar y profiad o weithio'n gydweithredol ar y prosiect grŵp (30%).

Rhif asesiad	Deiliannau Dysgu l'w bodloni	Math o asesiad	Hyd/Nifer Geiriau	Pwysoli (%)	Asesiad amgen, os yw'n berthnasol
1	1,2,3,	Group Project	15 munud	70%	N/A
2	4	Written Assignment	800-gair	30%	N/A

Rhanddirymiadau

N/A

Strategaethau Dysgu ac Addysgu

Bydd amrywiaeth o wahanol strategaethau dysgu ac addysgu yn cael eu defnyddio yn y modiwl hwn, gan gynnwys darlithoedd, seminarau, gweithgareddau grŵp ac unigol, dysgu dan gyfarwyddyd ac wedi'i hunangyfarwyddo, a thiwtorialau. Cynhwysir cynnwys anghydamserol ar-lein sydd wedi'i recordio ymlaen llaw fel rhan o'r modiwl a bydd hwn yn sail i'r sesiynau cydamserol. Bydd hyn yn caniatáu i fyfyrwyr gael amser i adfyfrio ar eu gwybodaeth a'i datblygu ymhellach cyn atgyfnerthu'r dysgu drwy weithdai grŵp a/neu seminarau. Bydd seminarau a gweithdai yn cynnwys gweithgareddau megis trafodaethau hunanadfyfyriol, trafodaethau grŵp, a gwerthusiad astudiaeth achos moeseg ymchwil.

Mae'r holl ddulliau addysgu a dysgu yn cael eu cefnogi gan amgylchedd dysgu rhithiol y Brifysgol, Moodle, lle bydd myfyrwyr yn gallu cael mynediad at wybodaeth eglur ac amserol er mwyn cefnogi gyda chyflwyno cynnwys megis fideos, dolenni at wybodaeth berthnasol ar-lein, fforymau trafod a darlithoedd sydd wedi'u recordio ymlaen llaw.

Mae Fframwaith Dysgu Gweithredol y Brifysgol (ALF) wedi ei mewnosod o fewn y modiwl er mwyn cyflawni'r hygyrchedd, cynhwysiant a hyblygrwydd gorau o safbwynt addysgu a dysgu. Mae hyn yn unol ag egwyddorion y Dyluniad Cyffredinol ar gyfer Dysgu (UDL). Defnyddir cyfuniad o ddysgu sy'n cyfuno dysgu cydamserol ac anghydamserol sydd wedi'u galluogi'n ddigidol gyda'r defnydd gorau o gyfleoedd ar-lein a lleoedd a chyfleusterau ar y campws.

Elfennau Cymraeg

Gall myfyrwyr gyflwyno eu gwaith, cael mynediad at ffurflenni, adnoddau, gohebiaeth e-bost, cefnogaeth lleoliad a thiwtorialau personol yn Gymraeg.

Amlinelliad o'r Maes Llafur Dangosol

- Rhagdybiaethau athronyddol, hanfodion ac egwyddorion sy'n sail i ymchwil
- Sut i fynd ati i gynllunio a dylunio ymchwil
- Moeseg ac ymddygiad
- Trafodaethau mewn ymchwil
- Ystyriaethau casglu a dadansoddi data ar gyfer ymchwil

Llyfryddiaeth Ddangosol:

Nodwch fod y gwaith darllen hanfodol a'r gwaith darllen dangosol arall yn amodol ar adolygiad a diweddariad blynyddol.

Gwaith Darllen Hanfodol

Banyard, P., Dillon, G., Norman, C., & Winder, B. (Eds.). (2024). *Essential psychology* (4th ed.). SAGE.

Clark-Carter, D. (2024). *Quantitative psychological research: The complete student's companion* (5th ed.). Psychology Press.

Sullivan, C., & Forrester, M. A. (Eds.). (2018). *Doing qualitative research in psychology: A practical guide* (2nd ed.). SAGE.

Willig, C. (2022). *Introducing qualitative research in psychology* (4th ed.). Open University Press.

Gwaith darllen dangosol arall

Bourne, V. (2017). *Starting out in methods and statistics for psychology: A hands-on guide to doing research*. Oxford University Press.

Braun, V. & Clarke, V. (2013). *Successful qualitative research: A practical guide for beginners*. SAGE.

Horst, J.S., (2015). *The psychology research companion: From student project to working life*. Routledge.

Gellir canfod rhai adnoddau Cymraeg yn www.porth.ac.uk, sef porth adnoddau y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Administrative Information

For office use only	
Initial approval date	April 2026
With effect from date	September 2026
Date and details of revision	
Version number	



